Dŵr Cymru
Welsh Water

# Datganiad o newidiadau sylweddol

Mae'r datganiad hwn wedi cael ei gwblhau yn unol â gofynion gwybodaeth rheolau'r Cynllun Taliadau a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016.

1

## Cynnydd sylweddol mewn biliau

**a) Cadarnhad ynghylch a yw'r ymgymerwr yn disgwyl unrhyw gynnydd mewn biliau o fwy na 5% o'r flwyddyn flaenorol (ar gyfer math o gwsmer penodol gan dybio lefel gyson o ddefnydd) ac, os disgwylir cynnydd o'r fath:**

- faint o gynnydd a ddisgwylir;
- pa fathau o gwsmeriaid y mae'n debygol o effeithio arnynt;
- y strategaethau trin a fabwysiadwyd gan y cwmni neu pam nad oedd y cwmni o'r farn bod angen strategaethau trin.

Mae'r newid yn y biliau terfynol ar gyfer cwsmeriaid preswyl a busnes sy'n codi o Gynllun Taliadau 2018/19, gan dybio lefel gyson o ddefnydd, wedi'i adolygu gan y Bwrdd. Nid yw Dŵr Cymru yn disgwyl i unrhyw filiau gynyddu mwy na 5%. Dangosir effaith y newidiadau ar sampl gynrychioliadol o gwsmeriaid yn y tablau isod:

### Biliau Enghreifftiol – Cwsmeriaid preswyl

| | Bil 17/18 £ | Bil 18/19 £ | Amrywiant £ | Amrywiant % |
|---|---|---|---|---|
| **Biliau Preswyl Anfesuredig** | | | | |
| Gwerth Ardrethol Isel | 399 | 414 | 15 | 3.9% |
| Gwerth Ardrethol Canolig | 539 | 560 | 21 | 3.9% |
| Gwerth Ardrethol Uchel | 691 | 718 | 27 | 3.9% |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf | 555 | 576 | 22 | 3.9% |
| Dŵr yn unig | 224 | 233 | 9 | 3.9% |
| Dŵr Gwastraff yn unig | 315 | 327 | 12 | 3.9% |
| **Taliadau Mesuredig ar sail Asesiad** | | | | |
| 1 unigolyn | 304 | 319 | 14 | 4.6% |
| 2 unigolyn | 398 | 416 | 19 | 4.7% |
| **Tariffau Cymdeithasol** | | | | |
| WaterSure Cymru | 308 | 320 | 12 | 3.9% |
| Band HelpU | 190 | 197 | 7 | 3.9% |
| **Safle Preswyl Mesuredig** | | | | |
| Defnydd isel | 264 | 274 | 10 | 3.9% |
| Defnydd canolig | 339 | 353 | 13 | 3.9% |
| Defnydd uchel | 511 | 531 | 20 | 3.9% |
| Dŵr yn unig | 140 | 145 | 5 | 3.9% |
| Carthffosiaeth yn unig | 209 | 217 | 8 | 3.9% |

DS. Efallai na fydd ffigurau yn cysoni oherwydd talgrynnu.

**Biliau Enghreifftiol – Cwsmeriaid dibreswyl**

| | Bil 17/18 £ | Bil 18/19 £ | Amrywiant £ | Amrywiant % |
|---|---|---|---|---|
| **Biliau Dibreswyl Anfesuredig** | | | | |
| Dŵr | 293 | 306 | 13 | 4.6% |
| Carthffosiaeth | 414 | 432 | 18 | 4.3% |
| **Taliadau Mesuredig** | | | | |
| Dŵr <50 Ml | 712 | 745 | 33 | 4.6% |
| Carthffosiaeth <50 Ml | 1,025 | 1,070 | 44 | 4.3% |
| Band Dŵr 1 (50 - 100 Ml yf) | 94,960 | 99,248 | 4,288 | 4.5% |
| Band Dŵr 2 (100 - 250 Ml yf) | 157,508 | 164,820 | 7,311 | 4.6% |
| Band Dŵr 3 (250 - 500 Ml yf) | 297,299 | 310,680 | 13,381 | 4.5% |
| Band Dŵr 4 (500 - 1000 Ml yf) | 528,953 | 553,340 | 24,388 | 4.6% |
| Band Dŵr 5 (>1000 Ml yf) | 823,185 | 860,240 | 37,055 | 4.5% |
| Carthffosiaeth >100 Ml | 591,366 | 617,069 | 25,702 | 4.3% |
| **Elifion Masnach** | | | | |
| Elifion masnach <100Ml | 9,660 | 10,077 | 417 | 4.3% |
| Elifion masnach >100Ml | 359,960 | 375,590 | 15,629 | 4.3% |

DS. Efallai na fydd ffigurau yn cysoni oherwydd talgrynnu.

2

## Newidiadau yn y polisi codi taliadau

**(b) Manylion unrhyw newidiadau sylweddol yn y polisi codi taliadau gan y cwmni ers y flwyddyn flaenorol.**

Symleiddiodd y Bwrdd y tariffau cymdeithasol yng Nghynllun Taliadau 2017/18 ac o ganlyniad bu cynnydd sylweddol yn nifer y cwsmeriaid sy'n cael budd ohonynt dros y flwyddyn gyfredol. Rhagwelir y bydd dros 120,000 yn cael budd ohonynt erbyn diwedd blwyddyn codi taliadau 2018/19. Bydd y lefel hon o fudd yn gofyn am gynyddu'r traws-gymhorthdal, a fyddai, gyda'r MPM uchel ym mis Tachwedd, wedi arwain at newid sylweddol ym miliau cwsmeriaid preswyl eraill. Ar ôl eu hadolygu, mae'r Bwrdd wedi penderfynu pennu taliadau er mwyn adennill llai na'r refeniw cyfanwerthu llawn a ganiateir ar gyfer 2018/19 er mwyn sicrhau na fydd biliau cwsmeriaid preswyl Dŵr Cymru yn cynyddu mwy na chwyddiant.

3

## Strategaethau trin

**Cwsmeriaid Tâl Mesuredig ar Sail Asesiad**
Mae defnydd tybiedig cwsmeriaid Tâl Mesuredig ar Sail Asesiad wedi cael ei adolygu. Bu cynnydd yn y defnydd cofnodedig yn yr eiddo mesuredig sy'n sail i'r tâl. Byddai cynnydd syth mewn defnydd tybiedig wrth gyfrifo'r Tâl Mesuredig ar Sail Asesiad wedi arwain at newid sylweddol yn y tâl. Ar ôl ymgynghori â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr, mae'r Bwrdd wedi penderfynu cyflwyno'r cynnydd yn gynyddrannol er mwyn sicrhau y bydd y Tâl Mesuredig ar Sail Asesiad yn aros islaw 5%.

**Cyfnod pontio Cymorth Dŵr Cymru**
Symudwyd y rhan fwyaf o gwsmeriaid a oedd yn rhan o gynllun Cymorth Dŵr Cymru pan gafodd ei ddisodli gan WaterSure Cymru ym mis Ebrill 2015 i WaterSure Cymru ym mis Ebrill 2017. Ar y pryd, rhoddwyd strategaeth drin ar waith ar gyfer nifer fach o gwsmeriaid carthffosiaeth yn unig Cymorth Dŵr Cymru. Bydd y cwsmeriaid hyn yn talu tariff pontio hyd at 31 Mawrth 2020 er mwyn sicrhau nad ydynt yn gweld unrhyw gynnydd sylweddol yn eu bil.